

**The Gambling Commission's
Welsh language scheme**

**Cynllun Iaith Cymraeg y Comisiwn
Hapchwarae**

Adolygwyd 11 Chwefror 2014

1 Cyflwyniad

- 1.1 Dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun i gyflwyno sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.
- 1.2 Dyma gynllun y Comisiwn Hapchwarae (y Comisiwn).
- 1.3 Mae'n disgrifio sut y byddwn yn rhoi effaith, cyn belled ag y mae'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol fel ei gilydd, i'r egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf, sef wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, dylid trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneb ar sylfaen o gydraddoldeb.
- 1.4 Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Yn y cynllun hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn golygu unigolion, unigolion cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu garfan o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr a phobl eraill yn cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o fewn ystyr y term 'cyhoeddus'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n gweithredu mewn swyddogaeth sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y term 'cyhoeddus' pan ydynt yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.
- 1.5 Targedir ein prif gyfathrebiadau ar y sefydliadau ac unigolion hynny sy'n gysylltiedig â darparu hapchwarae o fewn Prydain Fawr, ar chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a rhanddeiliaid eraill â diddordeb mewn hapchwarae.
- 1.6 Gellir gweld gwybodaeth bellach ynghylch cwmpas a phwrpas y cynlluniau iaith Gymraeg ar wefan Comisiynydd y Gymraeg - www.comisiynyddygyymraeg.org. Cymerodd Comisiynydd y Gymraeg le Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 1.7 Paratöwyd y cynllun hwn dan Adran 14 y Ddeddf – ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr hyn oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg pryd hynny dan Adran 9 y Ddeddf. Daeth i rym ar 29 Ionawr 2010 ac fe'i adolygwyd ym mis Tachwedd 2013 (gweler paragraff 2.2).

2 Cefndir i'r Comisiwn Hapchwarae

- 2.1 Sefydlwyd y Comisiwn dan Ddeddf Hapchwarae 2005 er mwyn rheoleiddio'r holl hapchwarae masnachol ym Mhrydain Fawr. Mae ein cylch gwaith dan y Ddeddf honno'n cynnwys arcedau, betio, bingo a chasinos heblaw am loteriau a gweithredwyr ar-lein.
- 2.2 Ar 1 Hydref 2013 derbyniodd y Comisiwn Hapchwarae gyfrifoldebau'r Comisiwn Loteri Genedlaethol er mwyn rheoleiddio'r Loteri Genedlaethol dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993.
- 2.3 Llywodraethir ein gweithgarwch bron i gyd gan yr amcanion trwyddedu a gyflwynir yn y Ddeddf Hapchwarae a Deddf y Loteri Genedlaethol. Trwy reoleiddio effeithiol ac ymgysylltu â'r cyhoedd rydym yn trwyddedu hapchwarae ac yn sicrhau:
 - ei fod yn rhydd rhag trosedd
 - ei fod yn deg ac agored
 - y diogelir plant a phobl agored i niwed
 - y rhedir y Loteri Genedlaethol â phriodoldeb dyledus
 - y diogelir buddiannau pob cyfranogwr yn y Loteri Genedlaethol
 - ac yn amodol ar y ddau olaf, i wneud y gorau o'r elw i achosion da'r Loteri Genedlaethol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant hapchwarae a gweithredwr y Loteri Genedlaethol, Camelot i sicrhau cydymffurfiaid â'r amcanion hyn ac rydym yn ymgynghori'n agos ag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys gweithredwyr hapchwarae, grwpiau ffydd, elusennau hapchwarae a chyfreithwyr ar bolisiau sy'n cefnogi'r amcanion hyn. Hefyd rydym yn ystyried arfer gorau ym Mhrydain Fawr a thramor fel ei gilydd, yn siarad â chydweithwyr mewn awdurdodaethau eraill yn Ewrop, yr UD ac Awstralia a'r Dwyrain Pell.

- 2.4** Rydym yn cyflawni ein cylch gwaith trwy bedwar amcan strategol:
- **Rheoleiddio hapchwarae er lles y cyhoedd:** trwy gyflenwi system reoleiddiol gymesur sy'n cyflenwi trwyddedu a gorfodi ag arfer gorau a sy'n sicrhau cydymffurfriad gan drwyddedeion.
 - **Darparu cyngor awdurdodol ar hapchwarae a'i reoleiddio:** trwy adeiladu cronfa wybodaeth y Comisiwn trwy reoli gwybodaeth, deallusrwydd ac ymchwil.
 - **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** i sicrhau bod y Comisiwn yn atebol, gwirioneddol gytbwys a deallus yn ei waith.
 - **Datblygu ei gyflogeion a'i drefniant:** i gyflenwi rheoleiddio sy'n broffesiynolo, ymatebol, atebol a theg.
- 2.5** Gellir gweld ein polisiau a gweithdrefnau ar ein gwefan ar: www.gamblingcommission.gov.uk. Mae'r rhain yn cynnwys amodau trwydded a chodau ymarfer (LCCP) wyr hyn mae'n rhaid i weithredwyr hapchwarae eu dilyn. Gellir gweld polisiau a gweithdrefnau ynghylch rheoleiddio'r Loteri Genedlaethol ar ein gwefan: www.natlotcomm.gov.uk. Mae hyn yn cynnwys y drwydded i weithredu'r Loteri Genedlaethol.
- 2.6** Lleolir y Comisiwn yn Birmingham ac mae ganddo oddeutu 215 o gyflogeion gydag oddeutu 30 yn gweithio yn y maes.

3 Hyrwyddo a chyflenwi cynllun iaith Gymraeg y Comisiwn

Polisiau, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau

- 3.1** Bydd ein polisiau, mentrau a gwasanaethau'n gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a, ble bynnag mae'n ymarferol, byddant yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau dydd-i-ddydd.
- 3.2** Pan fydd yn ymarferol, bydd ein dogfennau ymgynghori'n trafod y berthynas rhwng yr iaith Gymraeg a'r polisiau dan ddatblygiad.
- 3.3** Pan gyfrannwn at ddatblygu neu gyflenwi polisiau a arweinir gan sefydliadau eraill byddwn yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.
- 3.4** Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun hwn ar ein mewnwrwyd i sicrhau bod yr holl gyflogeion, yn arbennig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â llunio polisi, yn ymwybodol o ofynion y Ddeddf a'r cynllun iaith Gymraeg hwn.

Cyflenwi gwasanaethau

- 3.5** Byddwn yn sicrhau bod cymaint o'n gwasanaethau â phosibl ar gael yn Gymraeg – abyddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pann ydynt ar gael.

Safonau ansawdd

- 3.6** Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg o'r un ansawdd ac fe'i darperir o fewn yr un amserlen.

Hyfforddi ein cyflogeion

- 3.7** Er mwyn hyrwyddo'r cynllun iaith Gymraeg, byddwn yn cefnogi cyflogeion trwy gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i'r rhai hynny sy'n dymuno datblygu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg llafar neu ysgrifenedig i gefnogi e u rôl gyda'r Comisiwn. Rhoddir blaenoriaeth i gyflogeion rheng-flaen sy'n gweithio gyda phobl yng Nghymru.

4 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

- 4.1** Pan wyddom fod unigolyn yn dymuno cyfathrebu gyda ni yn Gymraeg byddwn yn annodi'r cofnod ar ein system rheoli perthynas cwsmeriaid yn unol â hynny.

Gohebiaeth

4.2 Ein harfer arferol fydd fel sy'n dilyn:

- Pan gychwynnwn ohebiaeth gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg dim ond pan wyddom eisoes y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.
- Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn cyhoeddi ymateb yn Gymraeg (os bydd angen ymateb) Fel arfer byddwn yn cydnabod ymholiad neu gŵyn o fewn tri diwrnod gwaith.
- Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer arferol fydd i sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.
- Bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan ydynt ar gael.
- Bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan ydynt ar gael.

4.3 Bydd yr hyn uchod yn perthyn i ohebiaeth e-bost heblaw am ohebiaeth bapur.

Ffôn

4.4 Oherwydd ein lleoliad (lleolir y Comisiwn ym Birmingham) nid yw'n ymarferol inni gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, os sefydlwn linell gymorth ffôn neu gyfleuster tebyg er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru byddwn yn darparu gwasanaeth iaith Gymraeg. Hysbysebir hwn wrth ochr y gwasanaeth iaith Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

Cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yng Nghymru

4.5 Bydd croeso i gyfraniadau gan y cyhoedd naill ai yn Gymraeg neu Saesneg.

4.6 Ar gyfer cyfarfodydd/ymgynghoriadau agored yng Nghymru, bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael.

4.7 Bydd yr holl gyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd yng Nghymru'n ddwyieithog a gwahoddir i fynychwyr hysbysu'r Comisiwn o'u hoff iaith o flaen llaw.

4.8 Mewn cyfarfodydd lle defnyddir yr iaith Gymraeg, bydd taflenni a chyflwyniadau'n ddwyieithog, os ydynt ar gael.

5 Ein hwyneb cyhoeddus

Cyhoeddiadau

5.1 Fel arfer byddwn yn cyhoeddi deunydd y trefnir ei fod ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog, yn amodol ar yr amodau a gyflwynir yn Atodiad 1, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen ble bynnag mae'n bosibl.

5.2 Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai dogfen sengl yn rhy hir neu swmpus), bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd – a'n harfer arferol fydd i sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

5.3 Os nad yw ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad iaith sengl – a bydd pris fersiynau gwahanol Cymraeg a Saesneg yr un peth.

5.4 Bydd yr hyn uchod hefyd yn perthyn i ddeunydd sydd ar gael ar ffurf electronig ar ein gwefan, ar CD neu fel arall.

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

- 5.6** Byddwn yn sicrhau y bydd yr holl ffurflenni a'u nodiadau o gyfarwyddyd i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru'n gwbl ddwyieithog, yn amodol ar yr amodau a gyflwynir yn Atodiad 1. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan.
- 5.7** Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai dogfen sengl yn rhy hir neu swmpus), bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd – a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac y byddant yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.8** Pan nodwn wybodaeth ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a anfonir i'r cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.
- 5.9** Pan nodwn wybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir i'r cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai y gwyddom y byddai'n well gan y derbynyddion dderbyn yr wybodaeth yn Gymraeg neu Saesneg yn unig.
- 5.10** Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau y byddant yn gwneud hynny yn unol â'r hyn uchod.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio cyflogeion

- 5.11** Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio cyflogeion a roddir mewn papurau newydd iaith Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddosbarthir yn bennaf neu'n gyfangwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg.
- 5.12** Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd a blaenoriaeth – os ydynt wedi'u cynhyrchu fel fersiwn dwyieithog sengl, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 5.13** Gall hysbysiadau a roddir mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) iaith Saesneg gyda dosbarthiad ledled y DU fod yn Saesneg, oni bai fod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac os hynny gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg.
- 5.14** Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio cyflogeion a roddir rhywle arall yng Nghymru'n ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

- 5.15** Cyhoeddir datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu iaith Gymraeg yng Nghymru yn Gymraeg lle mae terfynau amser yn caniatáu.
- 5.16** Byddwn yn postio fersiynau iaith Gymraeg o ddatganiadau i'r wasg ar ein gwefan, os ydynt ar gael.

Gwefannau

- 5.17** Bydd ein gwefan yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Mae botwm Cymraeg ar gael ar y bar offer ar hafan ein gwefan i ganiatáu mynediad rhwydd i fersiynau iaith Gymraeg o ddogfennau.
- 5.18** Wrth gynllunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu gwefannau presennol, byddwn yn cymryd i gyfrif gyfarwyddyd Comisiynydd y Gymraeg ynghylch datblygu gwefannau.
- 5.19** Pryd bynnag y byddwn yn postio cyhoeddiadau iaith Saesneg ar ein gwefannau, caiff y fersiynau Cymraeg eu postio ar yr un pryd, os ydynt ar gael.

Cyfathrebu â chwaraewyr

- 5.20** Fel corff masnachol, nid oes gofyniad i Camelot ddilyn amodau Deddf yr Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn derbyn, fel sefydliad ledled y DU, y dylid gwneud ymdrechion i sicrhau, yng Nghymru, y dylai dogfennau sy'n wynebu chwaraewyr fod ar gael yn y ddwy iaith. Mae'r drwydded i weithredu'r Loteri Genedlaethol yn datgan, lle mae safle manwerthu "wedi'i leoli yng Nghymru neu lle mae'r dosbarthwr yn cynnig tocynnau ar werth i gyfranogwyr yng Nghymru bydd y dogfennau [sy'n wynebu'r chwaraewr]...ar gael yn Gymraeg heblaw am Saesneg."
- 5.21** Pe byddai'r Comisiwn yn canfod nad oedd Camelot yn cwrdd â'r gofyniad hwn, mae gennym y pŵer i weithredu sancsiynau rheoleiddiol sy'n amrywio o gofnodi toriad yn swyddogol i gosbau ariannol.

6 Gweithredu'r cynllun

- 6.1** Nid oes gennym swyddfeydd yng Nghymru. Er hynny, byddwn yn ceisio gwybodaeth ynghylch sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr am swyddi a chyflogeion presennol.

Recruiwio

- 6.2** Ar gyfer unrhyw swyddi sy'n golygu cyswllt helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru byddwn yn ystyried a ddylai rhuglder yn Gymraeg fod yn sgil dymunol neu hanfodol – a datgenir hyn mewn cymwyseddau swydd a hysbysebion.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

- 6.3** Darperir am yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, yn unol â'r cynllun hwn, wrth inni ddatblygu, cynllunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- 6.4** Wrth inni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh byddwn yn cymryd i gyfrif gyfarwyddyd priodol Comisiynydd y Gymraeg.

Trefniadau mewnol

- 6.5** Mae'r mesurau yn y cynllun hwn yn cynnwys awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth llawn ein sefydliad.
- 6.6** Bydd gan reolwyr y cyfrifoldeb i weithredu'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 6.7** Bydd y Rheolwr Materion Corfforaethol yn cydgysylltu'r gwaith sydd ei angen i gyflenwi, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.
- 6.8** Rydym yn diweddarau cynllun gweithredu manwl yn barhaol i'w gytuno gyda Chomisiynydd y Gymraeg, yn cyflwyno sut y byddwn yn sicrhau y byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daeth y cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad y daeth y cynllun iaith i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn ôl pob targed. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd sicrhau ein bod yn cyflenwi'r ymrwymadau a gyflwynir yn y cynllun hwn cyn gynted â phosibl.
- 6.9** Cyhoeddir y cynllun ar ein gwefan.
- 6.10** Byddwn yn cynhyrchu cyfarwyddyd ar gyfer ein cyflogeion er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn.
- 6.11** Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant ar gyfer ein cyflogeion er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac er mwyn egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith dyddiol. Bydd peidio â gweithredu yn unol â'r cynllun yn fater disgyblaethol.

- 6.12** Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio cyfieithwyr neu ddehonglwyr sy'n gymwys ar gyfer cyfieithu deunydd electronig a phrintiedig – ac ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.
- 6.13** Ymgymerir ag unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad ymdrinir ag ef yn benodol gan y cynllun hwn, mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a gynhwysir yn ny cynllun hwn.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

- 6.14** Byddwn yn gweithredu yn unol â Chomisiynydd y Gymraeg ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- 6.15** Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ei chyfieithu i'r Gymraeg lle mae'n rhesymol ymarferol. Os penderfynwn na allwn ddarparu'r wybodaeth yn y fformat hwnnw yna byddwn yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i roi'r rhesymau.

7 Monitro'r cynllun

Adolygu a diwygio'r cynllun

- 7.1** Byddwn yn monitro'n cynnydd wrth gyflenwi'r cynllun hwn yn ôl y targedau yn y cynllun gweithredu a gytunir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Byddwn yn adrodd wrth ein bwrdd rheoli ynghylch cynnydd.
- 7.2** Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeirio at gynnydd wrth gyflenwi'r cynllun hwn, fel sy'n briodol.
- 7.3** Byddwn yn adrodd wrth Gomisiynydd y Gymraeg ar ein cynnydd wrth gyflenwi'r cynllun hwn, pan fyddant yn gofyn.
- 7.4** Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd ar ôl iddo ddod i effaith ac ar unrhyw amser arall fel sy'n briodol oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau rydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny ynddynt, neu am unrhyw reswm arall.
- 7.5** Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau ynghylch gwella

- 7.6** Dylid cyfeirio cwynion sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, at:
- Y Rheolwr Materion Corfforaethol
 - Y Comisiwn Hapchwarae
 - Victoria Square House
 - Victoria Square
 - Birmingham B2 4BP

Neu drwy e-bost i: cymraeg@gamblingcommission.gov.uk

- 7.7** Byddwn yn cydweithredu â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn datrys cwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir dan Adran17 y Ddeddf.

Atodiad 1: Manyleb cyhoeddiadau a ffurflenni'r Comisiwn Hapchwarae i'w cyfieithu i'r Gymraeg

Pwrpas cyfarwyddyd yw helpu'r Comisiwn i benderfynu a ddylid cyhoeddi deunydd yn Gymraeg, naill ai fel dogfennau dwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bwriedir y cyfarwyddyd i fod yn hyblyg heb fod yn argymhellol. Fel a ddangosir yn y cyfarwyddyd i'r cynllun iaith Gymraeg "gellir ystyried buddion pob mesur ynghylch y defnydd o'r Gymraeg yn ôl cost ei weithredu o ran arian neu adnoddau eraill".

Cyhoeddir y rhan fwyaf o ddeunydd y Comisiwn yn uniongyrchol ar ein gwefan ar www.gamblingcommission.gov.uk.

Dylid ystyried y pwyntiau isod ar gyfer yr holl ddeunydd a gyhoeddir gennym. Yn yr enghreifftiau dilynol C = cyfieithu neu ddarparu crynodeb Gymreg, D = dim angen cyfieithiad:

1. Y cynulleidfa neu statws targed

Er enghraifft,

- y cyhoedd D
- sector neilltuol yn cynrychioli unigolion sy'n siarad Cymraeg C
- unigolion yn cynrychioli carfannau penodol sy'n siarad Cymraeg C

2. Pwnc

Er enghraifft, a fyddai cyhoeddi'r ddogfen neu ffurflen yn Saesneg yn cau allan yn benodol fynediad i'r wybodaeth gan Gymry Cymraeg? C

3. Diddordeb y cyfryngau

Er enghraifft, a yw'n debygol y bydd y cyhoeddiad yn denu sylw sylweddol gan y cyfryngau iaith Gymraeg yn unig? C

4. Dogfennau ymgynghori

A yw'r cyhoeddiad yn ddogfen ymgynghori? Os felly:

- A yw'r ddogfen yn berthnasol i randdeiliaid yng Nghymru'n unig? C
- A yw'r ddogfen yn berthnasol i gynulleidfa eang, yn arbennig rhanddeiliaid yng Nghymru? C
- A yw'r ddogfen yn berthnasol i'r cyhoedd? D

Ar ben hynny, ym mhob achos mae'n rhaid cymryd y dilynol i gyfrif er mwyn sicrhau ei fod yn economaidd ymarferol i ddarparu fersiwn Cymraeg o ffurflen neu ddogfen:

- y nifer o gopïau i'w hargraffu bob blwyddyn i'w defnyddio yng Nghymru a sut y byddai'r rhain yn cael eu dosbarthu'n effeithiol.
- y nifer o dudalennau/geiriau mewn fersiwn iaith sengl o'r cyhoeddiad neu ffurflen ac felly'r gost o gynhyrchu fersiynau dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg ar wahân.
- yr amserlen ofynnol mewn cyfieithu, teiposod, proflennu ac arwyddo i ffwrdd fersiynau Cymraeg. Mae'n rhaid cynnwys amseroedd arwain yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau y cwrddir â therfynnau amser ar gyfer y fersiynau Saesneg a Chymraeg fel ei gilydd.
- Hyd oes y ddogfen. Er enghraifft, cyhoeddiad o gyfarwyddyd sydd â hyd cyfyng ac sy'n debygol o gael ei ddisodli'n aml.

Dylid cadw cofnod o'r penderfyniad a gymerir ynghylch pob cyhoeddiad neu ffurflen a gynhyrchir neu a ddiwygir. Dyma gyfrifoldeb perchennog/awdur y cyhoeddiad/ffurflen.

Comisiwn Hapchwarae Chwefror 2014

Comisiwn Hapchwarae

Victoria Square House, Victoria Square

Birmingham B2 4BP

Ffôn 0121 230 6666

Ffacs 0121 230 6720

E-bost info@gamblingcommission.gov.uk

GUI 14/02